Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Sirol Sychdyn
Vownog Road
Sychdyn
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6ED

20/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim**: Tachwedd 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Sirol Sychdyn yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau arwain sy'n dylanwadu ar fywyd yr ysgol

- Ers yr arolygiad craidd, mae staff wedi cyflwyno sawl grŵp arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer disgyblion. Maent yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar waith a bywyd yr ysgol.
- Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymgymryd â'u rolau arwain yn frwdfrydig ac yn ddiwyd. Maent yn ymfalchïo'n fawr yn llwyddiannau eu gwaith, fel codi arian ar gyfer elusennau lleol neu ddatblygu ardaloedd o dir yr ysgol.
- Mae arweinwyr yn modelu caredigrwydd, parch a phwysigrwydd gwerthfawrogi barn pobl eraill. O ganlyniad, mae disgyblion mewn rolau arwain yn gofalu eu bod yn gwrando ar leisiau disgyblion eraill ar draws yr ysgol, ac yn eu cynrychioli.
- Caiff disgyblion hŷn gyfleoedd gwerthfawr i drefnu a chynllunio clybiau allgyrsiol. Maent yn darparu ystod eang o weithgareddau sy'n hynod gynhwysol, yn diwallu anghenion ac yn bodloni diddordebau disgyblion yn dda.
- Caiff bron pob un o'r disgyblion gyfleoedd ystyrlon i bennu beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae'r sesiynau 'draw atoch chi' rheolaidd yn galluogi disgyblion i

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

archwilio'u diddordebau eu hunain a datblygu medrau sy'n cael eu haddysgu mewn gweithgareddau dysgu ymhellach.

- Mae disgyblion mewn rolau arwain yn ymgymryd â gweithgareddau buddiol i werthuso gwaith yr ysgol. Maent yn darparu adborth defnyddiol ar gyfer arweinwyr yr ysgol, er enghraifft wrth arsylwi ymddygiad cadarnhaol y disgyblion.

## Cryfhau prosesau i werthuso effaith blaenoriaethau'r ysgol, i sicrhau eu bod yn cael yr effaith ddymunol ar wella darpariaeth a safonau

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sydd wedi'i seilio ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion yn barhaus. Maent wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus, a cheir dealltwriaeth ar y cyd o flaenoriaethau a chynlluniau gwella'r ysgol.
- Dros gyfnod, mae cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol wedi datblygu gallu ystod gynyddol o staff i fonitro a gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth.
- Mae prosesau ar gyfer gwerthuso ansawdd gwaith yr ysgol yn gadarn. Mae staff, disgyblion a rhieni yn monitro'r ddarpariaeth gan ddefnyddio ystod addas o weithgareddau. Mae arweinwyr yn dadansoddi'r wybodaeth hon yn agos ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn cydweithio i wella'r meysydd hyn.
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod prosesau monitro a gwella wedi esblygu dros gyfnod, ac maent yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion yn effeithiol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
[https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/sychdyn-c-p-school-cy/](https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/sychdyn-c-p-school-cy/)

Yn gywir

L Miles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol